

SL(6)162 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2022

Cefndir a Diben

O ganlyniad i ddirymu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020¹ a'u disodli gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2022² ("y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol"), mae'r [Rheoliadau](#) hyn yn gwneud diwygiadau i:

- (i) Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020³ ("y Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd"); a
- (ii) Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol, Profion cyn Ymadael ac Atebolrwydd Gweithredwyr) (Cymru) (Diwygio) 2021⁴ ("y Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr").

Mae'r Rheoliadau Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd wedi eu diwygio hefyd i ddarparu mai dim ond gwybodaeth benodedig y mae rhaid i weithredwyr ei darparu i deithwyr cyn i daith ymadael ac yn ystod taith gan deithwyr rhyngwladol.

Yn ogystal, mae'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr wedi eu diwygio i roi yn lle'r gyfres bresennol o rwymedigaethau ar weithredwyr rwymedigaeth i gynnal prosesau a systemau digonol i sicrhau bod teithwyr yn meddu ar wybodaeth neu dystiolaeth benodol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y cawsant eu gosod gerbron y Senedd.

¹ (S.I. 2020/574 (W. 132))

² (S.I. 2022/126 (W. 41))

³ (S.I. 2020/595 (W. 136))

⁴ (S.I. 2021/48 (W. 11))



Materion technegol: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae rheoliad 11(3)(c) yn mewnosod diffiniad o "deithiwr cymwys" yn rheoliad 4 o'r Rheoliadau Atebolrwydd Gweithredwyr.

Mae'r fersiwn Saesneg fel a ganlyn:

"(c) in the appropriate place insert "eligible traveller has the meaning given in regulation 3 of the International Travel Regulations";

Mae'r fersiwn Gymraeg fel a ganlyn:

"(c) yn y lle priodol mewnosoder "mae i "teithiwr cymwys" ("eligible traveller") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 o'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol";

Nid yw fersiwn Saesneg y Rheoliadau yn cynnwys cyfieithiad Cymraeg o'r term "eligible traveller", tra bod y fersiwn Gymraeg yn cynnwys cyfieithiad Saesneg o'r un term.

Rhinweddau: craffu

Nodir y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn y torrir y rheol 21 diwrnod (hynny yw, y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir offeryn "gwneud negyddol" gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r offeryn i rym) a'r esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 17 Chwefror 2022.

Yn benodol, nodwn fod y llythyr yn nodi:

"Trwy beidio â chydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod bydd modd i'r Rheoliadau hyn ddod i rym cyn gynted ag y bo modd a pharhau â'r dull pedair gwlad o ymdrin â theithio rhyngwladol. O ystyried y newid yn y dystiolaeth ynglŷn â'r risg mewn perthynas â'r clefyd hwn, ystyrir bod hyn yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn."

2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd



Rydym yn nodi cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros unrhyw ymyrraeth bosibl â hawliau dynol. Yn benodol, nodwn y paragraff a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Mae’r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn symleiddio’r gofynion presennol a osodirar weithredwyr. I’r graddau yr ymwneir ag unrhyw hawliau, mae unrhyw ymyriadwedi ei gyfiawnhau ac yn gymesur, er mwyn atal lledaeniad COVID-19 a diogeluiechyd y cyhoedd.”

3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd

Nodwn na chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

“Oherwydd y bygythiad newidiol sy’n deillio o’r coronafeirws a’r angen i’r ymateb iechyd y cyhoedd gyd-fynd â’r sefyllfa wrth iddi newid, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn.”

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt craffu technegol: Rheol Sefydlog 21.2(vi)

Mae’r Llywodraeth yn cadarnhau mai gwall yw hwn ac y dylai’r fersiwn Saesneg o’r Rheoliadau gynnwys cyfieithiad Cymraeg o’r term “eligible traveller”. Rydym yn ceisio cywiro’r gwall hwn gyda Chofrestrydd yr OSau drwy slip cywiro i’r offeryn.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2022 ac mae'n cyflwyno adroddiad i’r Senedd yn unol â’r pwynt adrodd uchod.

